CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
10 Chwefror 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, N Highley, K Humphreys, C Ll Thomas, D Rees (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU
Cyng E Huws, D Michael, S Parry, I Rowlands

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts
Dechreuwyd gyda munud o distawrydd er cof am Mr Alan Jones (Preswylfa gynt)

DATGAN DIDDORDEB - Dim

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 13 Ionawr 2016
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13 Ionawr 2016, Cyng N Highley yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais arall am grant.
Twnnel Helyg - Mae y clerc yn disgwyl clywed gan Dee Walker.
Williams Homes Bala - Cynigodd Cyng D Rees dod a'r mater at sylw Cynefin
Mynwent Llanbeulan - mewn llaw.
Lon Salem - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones - mewn llaw
16C202 Capel Salem, Bryngwran - Mae y cais cynllunio wedi cael ei wrthod gan y Cyngor Sir. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at y perchennog yn gofyn iddi twtio y safle ac i godi ffens o amgylch y safle.

ADRODDIAD y CADEIRYDD
Mae'r Cadeirydd wedi derbyn dau pris am gosod mwy o ffensys yn y maes chwarae, i paratoi am cais ariannol. Hefyd, nodwyd bod preswylydd wedi difrodi rhan o'r ffens bresennol trwy osod gwrthrychau y tu ôl i'r ffens sydd yn awr yn pwyso drosodd i'r cae chwarae. Gan fod hwn ar eiddo'r awdurdod lleol, cynigiodd y Cynghorydd K Humphreys godi'r mater yn cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Dim

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Mawrth 2016

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
HSBC Cheque cyfrif y maes chwarae - mae y siec wedi ei dychwelyd gan y banc oherwydd bod cyfrif y maes chwarae wedi cael ei gau gan y banc. Bydd Cyng C Ll Thomas yn trafod y mater gyda'r banc.

Mr A Michael - darllenwyd llythyr gan Cyng A Michael yn cynnig ei ymddiswyddiad

MATERION ARIANNOL
Penderfyniwyd talu y canlynnol:
Anglesey Computer Solutions £240.00
Aelodaeth Unllais Cymru £113.00

MATERION ERAILL -
Mae'r Clerc wedi derbyn un pris am torri'r gwair am y cyfnod 2016 - 2018 ac un arall ar y ffordd.
Gofynnwyd i'r aelodau edrych ar wefan y cyngor a meddwl am syniadau ar gyfer gwelliannau

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Mawrth 2016